

Ffurflen CR1: Cais dal cimychiaid afon, neu'u symud ymaith, neu'r ddau beth

# Cais dal cimychiaid afon, neu'u symud ymaith, neu'r ddau beth

Darllenwch y nodiadau ychwanegol ar gefn y ffurflen hon cyn ei llenwi

Cymer tua 10-15 munud i chi llenwi'r ffurflen hon.



**Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru  
Natural  
Resources  
Wales**

## 1 Manylion yr ymgeisydd

Teitl \_\_\_\_\_  
Enw cyntaf \_\_\_\_\_  
Enw olaf \_\_\_\_\_  
Cyfeiriad \_\_\_\_\_  
Cod post \_\_\_\_\_  
Rhifau cyswllt, gan gynnwys y cod ardal \_\_\_\_\_  
Ffôn \_\_\_\_\_  
Ffacs \_\_\_\_\_  
Symudol \_\_\_\_\_  
E-bost \_\_\_\_\_

## 2 Ynglŷn â'r dŵr

Enw'r dŵr \_\_\_\_\_  
Tref agosaf, a'r sir \_\_\_\_\_  
Lleoliad: rhowch gyfeirnod grid cenedlaethol (y manau uchaf a'r isaf ar yr afon, os ar ran o afon) neu atodwch fap eglur gyda'r dŵr wedi'i farcio  
O \_\_\_\_\_  
I \_\_\_\_\_

Math o ddŵr Camlas  Afon   
Dŵr llonydd hollol amgaeedig   
Dŵr llonydd ar afon neu nant   
Dŵr llonydd ar orlifer   
Maint y dŵr (dyfroedd llonydd yn unig)

\_\_\_\_\_ erw  neu hectar   
Oes yna orchymyn dynodiad cadwraeth ar gyfer y safle?  
SoDdGA, e.e.?   
Nac oes   
Oes  Math o orchymlyn \_\_\_\_\_

## 3 Ynglŷn â'r gwaith sydd mewn golwg gennych


Pryd y dymunwch ddal? O Fawrth hyd Fedi, e.e.

\_\_\_\_\_ Dull dal  
Cawell cimychiaid afon   
Rhwyd law   
Rhwyd ollwng   
Arall  dywedwch isod sut yn union

Rheswm dros y dal  
Rheoli pysgodfa   
I'w bwyta fy hun   
Masnachol   
Gwyddonol

## 4 Manylion y gawell

Rhowch faint y gawell (mewn milimedrau) os bwriadwch ddefnyddio cewyll cimychiaid afon



A: Hyd \_\_\_\_\_ mm  
B: Lled \_\_\_\_\_ mm  
C: Ceg \_\_\_\_\_ mm  
Rhwyll \_\_\_\_\_ mm

Dywedwch sawl cawell neu rwyd rydych am eu defnyddio.

Nifer y cewyll/rhwydi \_\_\_\_\_

## 5 Mynd â chimychiaid afon ymaith

Rhowch fanylion rhywogaeth y cimychiaid afon sydd i'w dal


Ai at ddiiben arolygu mae hyn?

Ydi

Nac ydi

## 6 Llofnod a datganiad

Os rhowch unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir:

- dychwelwn eich cais; ac
- ni roddwn ganiatâd.

Yr wyf wedi darllen a deall y ffurflen hon a'r hysbysiad diogelu data yn y nodiadau ychwanegol ar gefn y ffurflen hon. Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, y mae'r wybodaeth a roddais yn gywir.

Llofnod yr ymgeisydd

Printiwch eich enw \_\_\_\_\_

Llofnod a dyddiad \_\_\_\_\_

## 7 Yr hyn a ddigwydd nesaf

Wedi llenwi'r ffurflen, postiwch neu ffaciwch hi at y Ganolfan Derbyn Trwyddedau, Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 0TP  
e-bost: [ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

Os yw eich cais chi'n llwyddiannus, gyrrwn atoch ddogfen gydsynio ynghyd â'r tagiau plastig y mae'n rhaid eu gosod ar eich cewyll i roi gwybod pwy biau nhw.

Sylwch y bydd arnoch angen caniatâd perchen y bysgodfa, ac unrhyw glybiau genweirio perthnasol, a chydsyniad Cyfoeth Naturiol Cymru, i ddefnyddio'r cewyll.

# Cais dal cimychiaid afon, neu'u symud ymaith, neu'r ddau beth Nodiadau ychwanegol

## Pam y mae angen imi ofyn caniatâd?

Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n rheoleiddio symud cimychiaid afon o ddyfroedd mewndirol, a defnyddio offer pysgota arall na genwair a lein. Hynny er mwyn diogelu pysgodfeydd a'r amgylchedd ehangach rhag effeithiau gweithgareddau anaddas, ymlediad rhywogaethau estron a throsglwyddiad heintiau.

Mae'r ffurflen CR1 ar gyfer dal cimychiaid afon yn unig.

**Rhaid i chi beidio â defnyddio'ch cawell/cewyll cyn cael ein caniatâd ysgrifenedig ni. Gallai gwneud hynny arwain ar erlyn.**

## Os oes arnoch angen cymorth a chyngor

Cysylltwch â ni os daw arnoch angen unrhyw gymorth â'ch cais, neu gyngor cyffredinol am stocio pysgod neu reoli pysgodfeydd. Gallwch gysylltu â ni ar 0300 065 3000 neu ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk, a gofyn am eich swyddog pysgodfeydd lleol.

## Yr hyn a dderbyniwch, a pha bryd


Os yw eich cais yn llwyddiannus, gyrrir atoch ganiatâd a thagiau plastig. Rhaid eu gosod wrth eich cewyll gydol yr amser y defnyddir nhw. Os collwch eich tagiau, cysylltwch â ni ar 0300 065 3000 neu ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Mae arnom angen 20 niwrnod gwaith i brosesu'ch cais, ond ceisiwn wneud hynny o fewn 10 niwrnod. Efallai y cymer rhagor, os yw'r dŵr y bwriadwch dal cimychiaid afon ynddo â dynodiad cadwraeth (SoDdGA, e.e.), gan y gall y bydd arnom angen ymgynghori â chyrrff eraill.

## Beth os daliaf bysgod eraill?

O ddal pysgod arall na'r rhywogaethau a restrir ar y ddogfen gydsynio, dylid eu dychwelyd i'r dŵr o ble ddaethant, a hynny cyn gynted ag y bo modd, ac â chyn lleied o niwed ag y bo modd.

## Maint y gawell



Efallai na roddwn ganiatâd os barnwn fod yr offer yn anaddas. Oni cheir, o flaen llaw, gytundeb ysgrifenedig i'r gwrthwyneb, rhaid i'r gawell a ddefnyddiwyd fod o fewn y rheolau isod:

- A: Rhaid i'r gawell beidio â bod dim hwy na 600mm
- B: Rhaid iddo beidio â bod dim lletach na 350mm ar ei lletaf
- C: Rhaid i'r geg beidio â bod dim lletach na 95mm ar draws ei chanol.

Rhaid i'r rhwyllau beidio â bod dim lletach na 30mm ar eu lletaf.

## Hysbysiad diogelu data

Prosesir yr wybodaeth a ddarparwyd yn eich cais gennym er mwyl delio â'ch cais.

Mae arnom angen yr wybodaeth ar y ffurflen os ydym i:

- ystyried eich cais; a
- darparu gwasanaeth effeithlon.

Fe'i prosesir hefyd er mwyn:

- arolygu cydymffurfiaeth ag amodau'r drwydded/caniatâd;
- prosesu adnewyddiadau; a
- chynnal y gofrestr/cofrestrau cyhoeddus perthnasol.

Gallwn hefyd brosesu neu ryddhau'r wybodaeth er mwyn:

- cynnig i chi ddogfennau neu wasanaethau perthynol i faterion amgylcheddol;
- ymgynghori â'r cyhoedd, cyrrff cyhoeddus a chyrrff eraill (Cefas, neu Lywodraeth Cymru, e.e.) ynghylch materion amgylcheddol;
- gwneud gwaith dadansoddi ystadegol, ymchwil a datblygu ynghylch materion amgylcheddol;
- darparu gwybodaeth o'r gofrestr gyhoeddus i unrhyw un a ofynno;
- atal unrhyw un rhag torri'r gyfraith amgylcheddol;
- ymchwilio i achosion posibl o dorri'r gyfraith amgylcheddol, a gweithredu o ganlyniad;
- barnu a yw cwsmeriaid yn fodlon â'n gwasanaeth, a gwella ein gwasanaeth;

Efallai y rhoddwn yr wybodaeth i'n hasiantau neu ein cynrychiolwyr, iddynt hwythau wneud y pethau hyn ar ein cyfer.

Dylech sicrhau bod unrhyw un a enwir ar y ffurflen hon yn cael gwybod am gynnwys yr hysbysiad diogelu data hwn.